

## **Amodau Arbennig Bandiau Pres**

1. Bydd pob band yn defnyddio'u Graddau Cenedlaethol a rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda'r Gofrestrfa Gymreig.
2. Caniateir uchafswm o 25 chwaraewr pres yn ogystal ag offerynwyr taro yn ôl yr angen yn y cystadlaethau hyn.
3. Trefnir y gystadleuaeth yn unol â'r Rheolau Cystadlu Cenedlaethol (drwy garedigrwydd y Gofrestrfa):
  - Rheol 17 (chwaraewr nad yw'n gallu chwarae)
  - Rheol 18 (cofrestru)
4. Rhaid i bob band wisgo lifrai os nad oes caniatâd wedi'i roi gan Reolwr y Gystadleuaeth ymlaen llaw.
5. Gall bandiau o Adran 2, 3 a 4 gystadlu mewn adran uwch cyn belled â'u bod hefyd yn cystadlu yn eu hadran eu hunain ac yn perfformio rhaglen wahanol yn y ddwy gystadleuaeth.
6. Bydd y cystadleuwyr yn y Bencampwriaeth / Adran 1 yn perfformio rhaglen o gerddoriaeth o'u dewis eu hunain heb fod yn hwy nag 20 munud, a chaniateir 15 munud i'r bandiau yn Adran 2, 3 a 4. Rhaid i bob rhaglen gynnwys o leiaf dri darn a chaniateir defnyddio darnau o gerddoriaeth nad ydynt ar gael yn gyffredinol i bob band.
7. Bydd bandiau'n cael eu cosbi os ydynt yn mynd dros yr amser. Petai cystadleuaeth yn gyfartal ar ôl ystyried pwyntiau cosb, dyfernir y wobr i'r band a dderbyniodd y cyfanswm mwyaf o bwyntiau gan y beirniaid.
8. Bydd y beirniaid yn eistedd wrth fwrdd y beirniaid yng nghorff y Pafiliwn.
9. Trosglwyddo dros dro – un diwrnod yn unig.
  - i. Ni ellir defnyddio trosglwyddiad dros dro ar gyfer mwy na phum chwaraewr (gan gynnwys offerynwyr taro).
  - ii. Gall chwaraewr sydd ar drosglwyddiad dros dro chwarae mewn hyd at dri band, sef ei f/band cofrestredig a dau fand arall.
  - iii. Noder: Os nad yw band cofrestredig chwaraewr sydd ar drosglwyddiad yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, gall y chwaraewr berfformio gyda dau fand.
  - iv. Rhaid gwneud cais am drosglwyddiad dros dro ar y ffurflen gydnabyddedig, wedi'i llofnodi gan swyddogion y ddau fand neu drwy lythyr at Reolwr y Gystadleuaeth, ac mae'n rhaid i'r chwaraewr dros dro gyflwyno'i g/cherdyn cofrestru ar ddiwrnod y gystadleuaeth.
  - v. Gellir gwneud cais am drosglwyddiad dros dro hyd at ac yn cynnwys diwrnod y gystadleuaeth.
  - vi. Gellir gwneud cais am drosglwyddo chwaraewr dros dro sy'n gymwys i chwarae yn yr un Adran neu fandiau o Raddfa Genedlaethol is. Gall bandiau o Adran 4 drosglwyddo hyd at bum chwaraewr o fandiau o'r 3edd neu'r 4edd Adran.
  - vii. Ni all chwaraewr a drosglwyddir dros dro chwarae unawd ond gall chwarae mewn deuawd, triawd neu bedwarawd.

10. Gellir disgyblu unrhyw fand nad yw'n barod i chwarae o fewn pum munud o'r amser a nodir yn nhrefn y rhaglen neu o'r amser pan fydd y band blaenorol yn gadael y llwyfan.

11. Disgyblaeth ac Apeliadau – gellir cymryd camau disgyblu os digwydd unrhyw un o'r canlynol:

- i. Torri'r rheolau mewn unrhyw ffordd
- ii. Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gystadleuaeth
- iii. Unrhyw weithred a all effeithio ar enw da'r gystadleuaeth yn ôl Rheolwr y Gystadleuaeth.

Os dyfennir chwaraewr, swyddog neu fand yn euog o un o'r uchod, gellir eu cosbi drwy:

- i. Eu diarddel o'r gystadleuaeth
- ii. Fforffedu unrhyw dlysau a / neu ddyfarniadau
- iii. Eu gwahardd rhag derbyn gwahoddiad i gystadlu yn y dyfodol. Bydd gan unrhyw un sydd â chwyn neu sydd wedi'i ddisgyblu yr hawl i apelio.

12. Cwynion a Gwrthwynebiadau - ni ellir gwrthwynebu neu gwyno'n erbyn unrhyw ddyfarniad yn gyhoeddus yn yr Eisteddfod, ond gellir cyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Trefnydd o fewn awr i'r dyfarniad terfynol gydag enw a chyfeiriad y sawl sy'n cwyno. Bydd y wobwr yn cael ei hatal tan y bydd y mater wedi'i setlo.

**D.S. Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y rheolau ac amodau cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau neu ar gael i'w lawr lwytho o'r dudalen hon cyn cystadlu.**